
Arweiniad ar Lwyfannau Rhannu Fideos

Arweiniad ar gyfer darparwyr ar fesurau i ddiogelu defnyddwyr rhan deunydd niweidiol

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg

1

1. Trosolwg

Beth mae'r arweiniad hwn yn ymdrin ag ef

Daeth deddfwriaeth newydd sy'n berthnasol i wasanaethau llwyfannau rhannu fideos (VSP) a sefydlir yn y DU i rym ar 1 Tachwedd 2020.

Bwriedir i'r arweiniad hwn cefnogi darparwyr VSP i ddeall eu rhwymedigaethau statudol o dan y drefn newydd y cyfeirir ati fel "y Fframwaith VSP". Mae'r rhwymedigaethau hyn yn cynnwys gofynion i gymryd camau i ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol mewn fideos. Mae'r ddogfen hon yn:

- rhoi cefndir i reolau a gofynion y Fframwaith VSP
- esbonio pa fathau o gynnwys a allai gael ei ystyried yn ddeunydd niweidiol
- rhoi esboniad o'r mesurau y gall llwyfannau eu cymryd i ddiogelu defnyddwyr rhag y deunydd niweidiol hwnnw, yn ogystal â chanllawiau ar sut i weithredu'r mesurau hynny'n effeithiol
- esbonio'r meini prawf ymarferol a chymesur y mae'n rhaid i ddarparwyr eu hystyried wrth benderfynu pa fesurau i'w cymryd, sy'n cynnwys ystyriaethau ynghylch nodweddion unigol VSPs a hawliau a buddiannau cyfreithlon defnyddwyr
- annog y defnydd o gamau ychwanegol i helpu diogelu defnyddwyr, gan gynnwys cynnal asesiadau risg i helpu cyfeirio pa fesurau y maent yn eu cymryd a sut y gweithredir y mesurau hynny
- darparu gwybodaeth am ymagwedd Ofcom at fonitro a gorfodi.

Trosolwg o'r gofynion

Mae'r Fframwaith VSP yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gymryd camau priodol i ddiogelu:

- a) y cyhoedd rhag "**deunydd niweidiol perthnasol**". Mae hyn yn cynnwys:
 - i) anogaeth i drais neu gasineb yn erbyn grwpiau penodol
 - ii) cynnwys a fyddai'n cael ei ystyried yn drosedd o dan gyfreithiau sy'n ymwneud â therfysgaeth; deunydd cam-drin plant yn rhywiol; a hiliaeth a senoffobia
- b) pobl dan 18 oed rhag "**deunydd dan gyfyngiad**". Mae hyn yn cynnwys:
 - i) deunydd sydd â thystysgrif R18 ("gwaith rhyw") neu sy'n debygol o dderbyn y fath ardystiad"
 - ii) deunydd sydd wedi'i ystyried, neu a fyddai'n debygol o gael ei ystyried, yn anaddas i'w ddosbarthu (fel trais sadistaidd neu artaith)
 - iii) unrhyw ddeunydd arall a allai amharu ar ddatblygiad corfforol, meddyliol neu foesol pobl dan 18 oed

Rydym yn cyfeirio at y ddau gategori hyn o ddeunydd fel "deunydd niweidiol" ac yn trafod y ddau ofyniad gyda'i gilydd fel y "gofyniad i ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol". Mae gofynion

gweinyddol eraill hefyd ar gyfer VSPs a amlinellwn yn Adran 2, a gofynion penodol mewn perthynas â safonau hysbysebu yr ymdrinnir â hwy mewn cyhoeddiad ar wahân.

Gall darparwyr ddewis cymryd y camau a ddisgrifir yn y Fframwaith VSP i ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol. Crynhoir y rhain fel a ganlyn:

- mesurau mewn perthynas â thelerau ac amodau
- mesurau mewn perthynas ag adrodd, fflagio neu sgorio cynnwys
- mesurau rheoli mynediad megis gwirio oedran a rheolaethau rhieni
- prosesau cwynion (gan gynnwys y gofyniad i ddarparu gweithdrefn ddiuedd ar gyfer datrys anghydfod)
- offer a gwybodaeth ymwybyddiaeth o'r cyfryngau

Mae'n rhaid gweithredu'r mesurau hyn mewn ffordd sy'n diogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol. Mae'n ofynnol i ddarparwyr VSP bennu a yw'n briodol cymryd mesur penodol i ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol, yn ôl a yw'n ymarferol ac yn gymesur i wneud hynny. Mae cyfres o ystyriaethau wedi'u cynnwys yn y Fframwaith VSP gan gynnwys maint a natur y llwyfan; y math o ddeunydd ar y llwyfan a'r niwed y gallai ei achosi; a hawliau a buddiannau cyfreithlon defnyddwyr.

Natur y canllaw hwn

Mae'r Fframwaith VSP yn rhoi hyblygrwydd i ddarparwyr VSP o ran sut maent yn diogelu eu defnyddwyr. Mae hyn yn adlewyrchu amrywiaeth y sector a phwysigrwydd arloesi technolegol. Gan hynny, nid cyfres o gamau gorfodol mo'r ddogfen hon, ond bwriedir iddi helpu rhoi arweiniad i ddarparwyr wrth benderfynu ar y ffordd orau o gydymffurfio â'r gofynion statudol. Mater i ddarparwyr yw penderfynu pa fesurau sy'n briodol ar gyfer eu gwasanaeth ond pan gredwn nad yw'n debygol y caiff defnyddwyr eu diogelu'n effeithiol heb ddull gweithredu penodol, rydym yn dweud hynny.

Isod rydym wedi categoreiddio rhai o'r gwahanol ddisgwyliadau ar ddarparwyr, gan amrywio o ofynion o dan y Fframwaith VSP; trwy ddulliau yr ystyriwn eu bod yn rhan annatod o ddiogelu defnyddwyr; i gamau ychwanegol y mae Ofcom yn annog darparwyr yn gryf i'w cymryd.

Beth y mae'n ofynnol i ddarparwyr VSP ei wneud?

Diogelu'r cyhoedd rhag deunydd niweidiol perthnasol

Diogelu pobl dan 18 oed rhag deunydd cyfyngedig

Darparu gweithdrefn datrys anghydfod diduedd

Pa fesurau sy'n cael eu hystyried yn rhan annatod o ddiogelu defnyddwyr?

Cael telerau ac amodau a'u gweithredu'n effeithiol i wahardd uwchlwytho deunydd niweidiol perthnasol

Pan fydd gan ddarparwr delerau ac amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r sawl sy'n uwchlwytho eu hysbysu os yw fideo yn cynnwys deunydd cyfyngedig, cymryd camau wrth ymateb i'r hysbysiad hwn i ddiogelu plant dan 18 oed rhag y deunydd hwnnw

Meddu ar ryw ffurf ar fecanwaith fflagio ac adrodd a'i weithredu'n effeithiol
Gweithredu trefn gwirio oedran gadarn ar gyfer VSPs sy'n arbenigo mewn pornograffi sydd â lefel uchel o hyn neu ddeunydd arall sy'n anaddas i'w ddsbarthu
Beth y mae Ofcom yn annog darparwyr yn gryf i'w wneud i gefnogi cydymffurfio?
Cynnal proses rheoli risg, neu debyg, i gefnogi penderfyniadau ynghylch pa fesurau sy'n briodol i ddiogelu defnyddwyr ar y llwyfan a sut i'w gweithredu.
Cywain gwybodaeth i fesur effeithiolrwydd y mesurau ar y llwyfan

Dull Ofcom o asesu cydymffurfiad â'r Fframwaith VSP

Mater i ddarparwyr yw penderfynu sut y maent am fodloni'r gofyniad i ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol. Mae'n ddyletswydd ar Ofcom i gymryd camau sy'n sicrhau bod darparwyr VSP yn cydymffurfio â'r gofynion hyn, y byddwn yn eu cyflawni drwy fonitro a gorfodi.

Er i ni gydnabod efallai na fydd deunydd niweidiol yn cael ei ddileu'n llwyr o lwyfan, rydym yn disgwyl i ddarparwyr wneud ymdrechion pwrpasol i atal defnyddwyr rhag dod ar ei draws. Mae'n bosib y bydd angen craffu'n fanylach ar dystiolaeth o nifer mawr o achosion o ddeunydd niweidiol sy'n ymddangos ar lwyfan. Bydd Ofcom eisiau deall y mesurau y mae llwyfan wedi'u rhoi ar waith; eu heffeithiolrwydd wrth ddiogelu defnyddwyr; ac unrhyw brosesau sydd wedi cyfeirio penderfyniadau darparwr.

Ynghyd ag ymgysylltu â'r darparwyr eu hunain, rydym yn disgwyl cyfeirio ein dealltwriaeth ein hunain o ba un a yw defnyddwyr yn cael eu diogelu'n effeithiol ai beidio, trwy dderbyn cwynion gan ddefnyddwyr ac ymgysylltu â phartion â diddordeb fel elusennau, cyrff anllywodraethol a grwpiau diogelwch technoleg. Bydd yr ymgysylltu hwn yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi penderfyniadau Ofcom am feysydd o ffocws penodol wrth i ni symud drwy'r Drefn VSP.

Bydd dealltwriaeth Ofcom o ba fesurau sy'n briodol a beth yw diogelwch effeithiol i ddefnyddwyr yn datblygu dros amser ac rydym yn cydnabod y bydd y llwyfannau eu hunain, a'r risg o niwed ar y llwyfannau hynny, yn esblygu. Byddwn yn cydweithio â darparwyr i sicrhau bod gwasanaethau'n deall yn glir yr hyn a ddisgwylir ganddynt. I gefnogi hyn, byddwn yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol a byddwn yn diweddararu'r Canllaw hwn pan fydd angen.

Pan fydd pryderon gan Ofcom, byddwn yn gweithredu'n unol â'n [canllawiau gorfodi](#). Lle y bo'n briodol, byddwn yn gyffredinol yn ceisio gweithio gyda darparwyr yn anffurfiol i geisio datrys y pryderon hynny. Pan fydd pryderon difrifol yn codi, mae gennym y pŵer i gymryd camau gorfodi cyflym a chadarn, a all gynnwys sancsiynau.

Nid yw'r Drefn VSP yn gosod safonau ar gyfer cynnwys fideos unigol. Gan hynny, ni fydd Ofcom fel arfer yn adolygu darnau unigol o gynnwys wrth ymchwilio i faterion cydymffurfio. Er hynny, mewn sefyllfaoedd lle mae angen ymyriadau rheoleiddio mwy ymwithiol, megis cyfarwyddiadau i ddileu darnau o gynnwys neu atal neu gyfyngu ar wasanaeth, bydd Ofcom bob amser yn ystyried hawl y defnyddiwr i ryddid mynegiant a'r hawl i dderbyn gwybodaeth.